

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynlluniau addysg personol i blant sy'n derbyn gofal

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am ein canllawiau newydd ar gyfer ysgolion a chynghorau.



Wedi ei ysgrifennu i bobl ifanc gan Lywodraeth Cymru. Medi 2025

# Cynnwys


**Am y llyfryn yma** .......... **3**

**Beth ydy cynllun addysg personol** .......... **4**

Eich hawliau .......... 5

**Beth sydd yn y canllawiau** .......... **6**

Mae eich llais yn bwysig .......... 6

Eich llesiant .......... 7

Newid y CAP .......... 7

Eich dyfodol ar ôl i chi droi'n 16 oed .......... 8

Pwy sy'n helpu gyda'ch addysg .......... 8

Lle mae cynghorau ac ysgolion yn gallu cael cymorth .......... 10

**Dweud eich dweud** .......... **11**

Sut i anfon eich atebion aton ni .......... 11

Cwestiynau .......... 12

Amdanoch chi .......... 17

Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth .......... 18

**Ble rydych chi'n gallu cael cymorth** .......... **20**

# Am y llyfryn yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni wedi creu canllawiau i ysgolion a chynghorau ar sut i ddefnyddio cynlluniau addysg personol (PEPs) yn y ffordd orau i gefnogi plant sy'n **derbyn gofal**.

Os ydych chi'n derbyn gofal, rydych chi'n byw i ffwrdd o'ch rhieni oherwydd bod llys yn dweud eich bod chi angen cymorth ac amddiffyniad ychwanegol. Efallai y byddwch chi'n byw gyda gofalwyr maeth, perthnasau, neu mewn cartref plant.

Rydyn ni eisiau dweud wrthych chi am y canllawiau ac yna gofyn rhai cwestiynau i chi i gael gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.

**Anfonwch eich atebion aton ni erbyn 1 Rhagfyr 2025.**

Mae'r ddogfen yma wedi'i hysgrifennu i fod yn haws i bobl ifanc ei darllen. Gallwch ei darllen ar eich pen eich hun neu gyda rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo, fel athro, gofalwr neu weithiwr cymdeithasol.

# Beth ydy cynllun addysg personol

Os ydych chi'n blentyn sy'n derbyn gofal, rhaid i chi gael cynllun addysg personol (neu CAP). Mae hyn yn rhan o'ch cynllun gofal.

Mae CAP yn dangos sut mae eich addysg yn mynd, pa gefnogaeth rydych chi ei angen a'ch gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Mae'n cadw gwybodaeth bwysig am eich dysgu a'ch cynnydd.

## Mae'n dangos:

- Sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol neu'r coleg.
- Eich nodau a'ch gobeithion ar gyfer y dyfodol.
- Beth rydych chi'n ei hoffi ac nad ydych chi'n ei hoffi am yr ysgol.
- Beth sy'n eich helpu i ddysgu orau.
- Pa gymorth fyddai'n helpu eich llesiant. Dyma pa mor dda rydych chi'n teimlo am eich bywyd a chi eich hun.
- Eich hobïau a'ch diddordebau.
- Sut mae gofalwyr yn eich helpu gyda'ch addysg.

# Eich hawliau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc. Mae'n dweud:

**Erthygl 28** - Mae gennych hawl i addysg.

**Erthygl 12** - Mae gennych yr hawl i roi eich barn ac i oedolion wrando a'ch cymryd o ddifrif.



# Beth sydd yn y canllawiau

Rydyn ni eisiau gwneud pethau'n well i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae'r canllawiau yma ar gyfer ysgolion a chynghorau i'w helpu i'ch cefnogi'n well.

Wrth ysgrifennu'r canllawiau yma, fe wnaethon ni ofyn i blant, pobl ifanc a chynghorau beth roedden nhw'n ei feddwl.

## Mae eich llais yn bwysig

Dylech fod yn rhan o benderfyniadau am eich bywyd a'ch addysg. **Mae'r canllawiau yn dweud**:

- Mae gennych yr hawl i rannu eich barn yn eich CAP.
- Rhaid i ysgolion wrando ar eich barn wrth gynllunio cymorth i chi.
- Dylai oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo eich helpu i rannu eich barn.
- Cyfarfod CAP ydy eich cyfle i ddweud sut mae pethau'n mynd a pha gefnogaeth rydych chi ei angen.
- Gallwch fynd i'r cyfarfod CAP neu ofyn i oedolyn siarad ar eich rhan.

## Eich llesiant

Mae sut rydych chi'n teimlo yn effeithio ar sut rydych chi'n meddwl, dysgu ac ymddwyn.

**Mae'r canllawiau yn dweud** y dylai ysgolion:

- Deall eich anghenion emosiynol a chymdeithasol. Fel beth rydych chi ei angen i fod yn hapus ac yn fodlon.
- Gwybod sut i gefnogi'r anghenion hynny.
- Helpu chi i deimlo'n ddiogel, yn hapus ac fel eich bod yn gallu gwneud yn dda.

## Newid y CAP

Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth wahanol ar wahanol adegau. Mae hynny'n iawn.

**Mae'r canllawiau yn dweud** y dylai'ch CAP gael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Yn enwedig os bydd rhywbeth mawr yn newid, fel:

- Symud i gartref newydd.
- Newid ysgol.

Os byddwch chi'n newid ysgol, dylai eich CAP helpu'ch ysgol newydd i ddeall pa gefnogaeth rydych chi ei angen i ymgartrefu yno a gwneud yn dda.

## Eich dyfodol ar ôl i chi droi'n 16 oed

Tra byddwch yn dal yn yr ysgol, gofynnir i chi drafod eich cynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl i chi fod yn 16 oed.

**Mae'r canllawiau yn dweud** y dylech gael y gefnogaeth a'r wybodaeth gywir i'ch helpu i wneud y dewisiadau hynny.

Os ydych chi'n aros yn yr ysgol neu mewn addysg, byddwch yn dal i gael cymorth wedi'i gynllunio trwy eich CAP.

## Pwy sy'n helpu gyda'ch addysg

Mae yna oedolion sydd â'u swydd i'ch helpu gyda'ch dysgu. **Mae'r canllawiau yn dweud** sut y dylen nhw wneud hyn.

### Athro dynodedig

Athro arbennig yn eich ysgol sy'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael y gefnogaeth gywir a bod gennych chi CAP. Maen nhw'n siarad â'ch athrawon am sut rydych chi'n gwneud.

### Cydlynydd anghenion ychwanegol

Athro wedi'i hyfforddi i helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen help ychwanegol i ddysgu. Maen nhw'n gwneud cynllun o'r enw cynllun datblygu unigol, sy'n dangos pa gefnogaeth rydych chi'n ei gael a'ch nodau. Dylai'r cynllun hwn fod yn rhan o'ch CAP.

### Pennaeth Ysgol Rithwir neu Gydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal

Rhywun sy'n gweithio i'ch cyngor i'ch helpu chi i gael addysg dda. Maen nhw'n cefnogi'ch ysgol gyda'ch CAP i roi'r hyn rydych chi ei angen.

**Y tu allan i'r ysgol**, gallwch gael help gan:



- Gweithiwr cymdeithasol.
- Gofalwr maeth.
- Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Cynghorydd personol – os ydych chi dros 16 oed.



# Lle mae cynghorau ac ysgolion yn gallu cael cymorth

**Mae'r canllawiau yn dweud** lle mae cynghorau ac ysgolion yn gallu cael help neu wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys:

**Rhwydwaith Maethu Cymru** — Cefnogi gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol.

**Voices From Care Cymru** — Cefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn gofal nawr neu a oedd mewn gofal o'r blaen.

**Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru** — Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

**Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** — Cefnogi plant a phobl ifanc i fynegi'u barn neu fynychu cyfarfodydd.

# Dweud eich dweud

Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am ein canllawiau newydd ar gyfer cynghorau ac ysgolion ar CAP.

Os ydych chi eisiau mwy o fanylion, gallwch ddarllen y ddogfen ymgynghori lawn yma.

## Sut i anfon eich atebion aton ni

**E-bost:**
TegwchmewnAddysg@llyw.cymru

**Post:**
Cyrhaeddiad – Cangen Tegwch mewn Addysg
Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg
Cyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Anfonwch eich atebion aton ni erbyn 1 Rhagfyr 2025.**

# Cwestiynau



Atebwch y cwestiynau yma. Does dim rhaid i chi ateb pob un ohonyn nhw.

**1. Ydych chi'n meddwl y bydd y canllawiau CAP yn helpu cynghorau ac ysgolion i wella'r broses CAP ar gyfer plant sy'n derbyn gofal?**

Ydw ◯

Nac ydw ◯

Ddim yn gwybod ◯

Sylwadau:

**2. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau yn cynnwys popeth sydd ei angen i helpu cynghorau ac ysgolion i wella'r broses CAP?**

Ydw ◯

Nac ydw ◯

Ddim yn gwybod ◯

Sylwadau:

**3. Pe baech chi'n dweud Na ar gyfer cwestiwn 2, beth arall ddylen ni ei ychwanegu at y canllawiau?**

Sylwadau:

**4. Ydych chi'n meddwl y bydd y canllawiau yn helpu i gadw plant wrth wraidd y broses CAP?**

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylwadau:

**5. A oes sefydliadau cymorth eraill y dylid eu cynnwys yn y canllawiau?**

Sylwadau:

**6. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r canllawiau hyn effeithio ar y Gymraeg?**

Sylwadau:

**7. Beth allwn ni ei wneud i leihau effeithiau drwg ar yr iaith Gymraeg a chynyddu effeithiau da?**

Sylwadau:

**8. A oes unrhyw beth arall rydych chi am ei ddweud wrthym am y canllawiau CAP neu sut mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi yn yr ysgol?**

Sylwadau:

# Amdanoch chi

**9. Faint ydy'ch oed chi?**

**10. Ym mha dref ydych chi'n byw?**

**Diolch am gymryd rhan, mae eich barn yn bwysig.**



# Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Rydyn ni'n dilyn deddfau data y DU i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

Efallai y bydd staff neu sefydliadau yn gweld eich atebion i ddeall beth mae pobl yn ei feddwl.

Rydyn ni fel arfer yn ysgrifennu adroddiad am beth mae pobl yn ei ddweud, ond fyddwn ni ddim yn defnyddio eich enw.

**Mae gennych chi hawliau ynglŷn â'ch gwybodaeth, rydych chi'n gallu:**

- Gofyn pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi.
- Gofyn i ni gywiro camgymeriadau yn yr wybodaeth.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'ch gwybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth mewn rhai achosion.
- Cwyno os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni'n dilyn y rheolau.

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ


**E-bost**: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Neu cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Lôn Dŵr
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545745 neu 0303 123 1113

**Gwefan**: www.ico.org.uk



**Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud gan Hawdd ei Ddeall Cymru.**

# Ble rydych chi'n gallu cael cymorth

Os ydych chi'n poeni amdanoch chi'ch hun, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, rydych chi'n gallu cysylltu ag un o'r sefydliadau yma:

childline

Childline — Mae Childline ar agor 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos. Gallwch gysylltu â Childline am unrhyw beth, unrhyw bryd. Does dim problem yn rhy fawr nac yn rhy fach.

Ffoniwch: 0800 1111

meic

Meic — Meic ydy'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru.

Ffoniwch neu WhatsApp: 080880 23456



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG52053